# CABINET

Cofnodion cyfarfod o’r Cabinet a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 28 Mawrth 2017 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol yr Economi; Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol, Oedolion a Phlant; Hugh Irving, Aelod Arweiniol Cwsmeriaid a Llyfrgelloedd; Huw Jones, Aelod Arweiniol Datblygu Cymunedol; Barbara Smith, Aelod Arweiniol Moderneiddio a Thai; David Smith, Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus; Julian Thompson Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad ac Eryl Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol Addysg.

**Arsylwr:** Y Cynghorydd Meirick Davies

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM), Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Economi a’r Parth Cyhoeddus (RM) a Chymunedau (NS); Penaethiaid Gwasanaeth: Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (GW), Swyddog Cyllid /Adran 151 (RW), Cyfleusterau, Asedau a Thai (JG), Gwella Busnes a Moderneiddio (AS); Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol (NK) a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ)

## CYDNABYDDIAETH

Fe soniodd yr Arweinydd bod cyfarfod olaf tymor presennol y Cabinet yn gyfle i ddathlu llwyddiannau’r cyfnod hwnnw, gan gynnwys cyflwyno’r Cynllun Corfforaethol, a'r gwahaniaeth a wnaed i'r sir a'i phreswylwyr. Diolchodd i swyddogion ac aelodau am eu cefnogaeth werthfawr a’u gwaith caled, a dywedodd ei fod wedi bod yn fraint ac yn anrhydedd i arwain y Cyngor yn ystod y weinyddiaeth bresennol. Talodd y Cynghorydd David Smith deyrnged i ymroddiad ac ymrwymiad yr Arweinydd a diolchodd iddo am ei gefnogaeth a'i waith caled a wnaed ar ran y Cyngor.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni chafodd unrhyw gysylltiad ei ddatgan.

## 3 MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 28 Chwefror 2017.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Chwefror 2017 fel cofnod cywir ac y dylai'r Arweinydd eu llofnodi.*

**5 ADRODDIAD PERFFORMIAD Y CYNLLUN CORFFORAETHOL – CHWARTER 3 – 2016/17**

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad a oedd yn rhoi diweddariad i aelodau ar gyflawni Cynllun Corfforaethol 2012 - 17 ar ddiwedd chwarter 3 o 2016/17.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys dwy brif elfen -

- Crynodeb Gweithredol - cyflawniadau manwl ac eithriadau allweddol gyda pherfformiad da yn gyffredinol.
- Dim ond un canlyniad wedi cael ei asesu fel Coch: Blaenoriaeth ar gyfer Gwella - Canlyniad 7 Mae myfyrwyr yn cyflawni eu potensial, a oedd yn ddangosydd blynyddol fel y nodwyd a thrafodwyd yn flaenorol. Roedd pob canlyniad arall wedi'i werthuso i fod yn dderbyniol neu'n well, ac roedd adroddiad chwarterol llawn wedi darparu asesiad ar sail tystiolaeth o'r sefyllfa bresennol yn canolbwyntio ar eithriadau allweddol.

Roedd eglurhad ar gyfer statws pob dangosydd penodol wedi'i gynnwys yn yr adroddiad gyda materion allweddol yn cael sylw yn y cyfarfod. Roedd y rhan fwyaf o feysydd yn ddangosyddion blynyddol ac ni fu fawr o symudiad ers y chwarter diwethaf.

Wrth ystyried yr adroddiad, trafododd yr Aelodau'r materion canlynol –

- Datblygu'r Economi Leol - roedd y Cabinet yn falch o nodi llwyddiant y dull gweithredu traws-wasanaeth newydd i ddelio â busnesau a oedd eisiau buddsoddi yn y sir fel y gwelwyd ym muddsoddiad gwerth £6m a sicrhawyd gan The Real Petfood Company ym Modelwyddan.
- Nodwyd hefyd bod nifer o bobl wedi cymryd rhan ym menter Mis Mawrth Busnes. Fe soniodd yr Arweinydd am yr her yn y dyfodol o alinio blaenoriaethau'r Cyngor gyda Chynllun Twf Gogledd Cymru i sicrhau bod Sir Ddinbych mewn sefyllfa dda i elwa o fuddsoddiad yn y dyfodol, yn enwedig o ran isadeiledd cludiant. Cyfeiriodd Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Economi a Pharth Cyhoeddus at y pwyntiau a godwyd yn ystod trafodaeth yng nghyfarfod blaenorol y Cabinet wrth ystyried Gweledigaeth Twf a Strategaeth, a chadarnhaodd y byddai'n symud ymlaen â'r pwyntiau hynny, gan gynnwys pwysigrwydd isadeiledd cludiant. Myfyrwyr yn cyflawni eu potensial – cafwyd eglurhad bod y data perfformiad ar gyfer y flwyddyn yn cynnwys pob EOTAS (Addysg Heblaw yn yr Ysgol) am y tro cyntaf, a oedd yn cyfeirio at garfan fechan iawn o blant a phobl ifanc, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu haddysgu gartref ac mewn lleoliadau addysgol a gwarchodol. Fe dynnodd y Cynghorydd Eryl Williams sylw at ddangosydd EDU017 (% y disgyblion sy'n cyrraedd trothwy lefel 2) a dywedodd bod GwE yn datblygu model a rhaglen fwy effeithiol i wella

safonau ymhellach. Fe soniodd hefyd am y gwahaniaeth yn y gorffennol rhwng dyraniadau cyllid Llywodraeth Cymru a dywedodd y byddai newidiadau diweddar yn arwain at gyllid ychwanegol i ogledd Cymru a fyddai'n cael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau.

- Gwella ein ffyrdd - Ailadroddodd y Cynghorydd David Smith yr angen am gyllid priffyrdd ychwanegol er mwyn parhau i gynnal ffyrdd i'r safon bresennol.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn derbyn yr adroddiad ac yn nodi'r cynnydd o ran cyflawni'r Cynllun Corfforaethol ar ddiwedd chwarter 3 o 2016/17.*

## 6 ADRODDIAD CYLLID

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill adroddiad a nodai'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a chyllidebau gwasanaethau ar gyfer 2016/17. Rhoddodd grynodeb o sefyllfa ariannol y Cyngor fel a ganlyn-

- rhagwelwyd tanwariant net o £0.213miliwn ar gyfer cyllidebau gwasanaethau a chyllidebau corfforaethol
- cyflawnwyd 68% o arbedion hyd yma (targed o £5.2miliwn) ac roedd 2% arall yn gwneud cynnydd da; byddai 25% yn cael ei ohirio a'i gyflawni yn 2017/18 a 5% yn unig o arbedion fyddai heb eu cyflawni o fewn yr amserlen
- amlygwyd y risgiau ar hyn o bryd a'r rhagdybiaethau yn ymwneud â meysydd gwasanaeth unigol
- diweddariad cyffredinol ar y Cyfrif Refeniw Tai, Cynllun Cyfalaf Tai a'r Cynllun Cyfalaf (gan gynnwys elfen y Cynllun Corfforaethol)

Gofynnwyd i'r Cabinet hefyd nodi'r defnydd arfaethedig o danwariant gwasanaethau. Byddent yn gofyn am gymeradwyaeth ffurfiol pan fyddai'r union ffigurau yn hysbys yn rhan o'r adroddiad Alldro terfynol.

Codwyd y materion canlynol wrth drafod –

- roedd manylion Cyllideb Refeniw y Gwasanaethau Hamdden 2016/17 wedi'u hatodi i'r adroddiad fel y gofynnwyd yng nghyfarfod diwethaf y Cabinet.
- Roedd cymariaethau cost rhwng 2013/14 (y flwyddyn olaf o fasnachu cyn i'r ddarpariaeth hamdden gael ei reoli'n fewnol) yn dangos arbediad o tua £80,000 yn 2016/17. Dywedodd y Cynghorydd Huw Jones bod darparu'r cyfleusterau hamdden presennol am y gost bresennol (£560,000) yn gyflawniad rhyfeddol a'i fod yn cymharu'n fwy na ffafriol gydag awdurdodau lleol eraill. Roedd y Cabinet yn falch o nodi llwyddiant y dull a ddefnyddir gan yr awdurdod i fuddsoddi yn ei gyfleusterau hamdden a thalodd deyrnged i'r Pennaeth Cyfleusterau, Asedau a Thai a'i dîm wrth reoli a gweithredu gwasanaethau hamdden o fewn y sir. Cyfeiriwyd at Ganolfan Grefft Rhuthun, a thra'n nodi llwyddiant yr arddangosfeydd a'r arddangosiadau, ynghyd â'r caffi, codwyd cwestiynau ynghylch a yw'r unedau stiwdio'n cael eu gweithredu i gapasiti i weithredu'n gwbl effeithiol. Nodwyd bod amodau grant blaenorol wedi cyfyngu ar ddefnydd yr unedau, ond mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau mwy o hyblygrwydd er mwyn i'r gofod gael ei ddefnyddio yn fwy masnachol a fyddai hefyd yn arwain at ostyngiad mewn cymorthdaliadau gan y cyngor a'r Cyngor Celfyddydau. Roedd cyflwyniad diweddar wedi ei wneud i Gyngor Tref Rhuthun yn hynny o beth.

Roedd y Cynghorydd Bobby Feeley yn falch o adrodd ar lwyddiant enwog y Ganolfan ond teimlai y byddai hefyd yn elwa o fwy o gyhoeddusrwydd yn lleol. Cyfeiriwyd hefyd at y cyhoeddusrwydd a gynhyrchwyd ar ôl i Gyfarwyddwr Canolfan Grefft Rhuthun, Philip Hughes gael MBE am ei gyfraniadau i gelf a chrefft ac i lwyddiant y ganolfan

- Tynnwyd sylw at y pwysau y mae'r Gwasanaethau Cymorth Cymunedol yn ei wynebu fel yr amlygwyd yn yr adroddiad, ond nid oedd yn glir ar hyn o bryd faint o'r arian ychwanegol ar gyfer Cymru a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth y DU o ganlyniad i'r buddsoddiad ychwanegol yn y sector gofal cymdeithasol yn Lloegr, a fyddai'n cael ei drosglwyddo i awdurdodau lleol Cymru i ddiwallu'r pwysau ariannol yn y gwasanaethau gofal cymdeithasol.
- Dylai'r cyfeiriad at 'Wasanaethau Cymunedol' yn yr adroddiad ddarllen fel 'Gwasanaethau Cymorth Cymunedol' a thynnodd y Cynghorydd Bobby Feeley sylw at y gwaith caled wrth adolygu darpariaeth gwasanaethau gofal mewnol yn y dyfodol er mwyn darparu gwasanaeth gwell er lles preswylwyr, a thalodd deyrnged i bawb a fu'n rhan o'r broses honno. Roedd hi hefyd yn falch o nodi llwyddiant uno Gwasanaethau Addysg a Phlant a fyddai'n arwain at welliannau pellach i'r gwasanaethau.

Teimlai'r Arweinydd bod yr adroddiad cyllid rheolaidd yn ffordd werthfawr o roi gwybod i'r Cabinet am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r pwysau presennol. Roedd yr adroddiad yn dangos fod pob gwasanaeth yn cael ei reoli'n dda ac roedd yn sicrhau bod y pwysau'n cael sylw cyn gynted â phosib er mwyn cynllunio'n effeithiol ar eu cyfer. Diolchodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill i'r Pennaeth Cyllid/Swyddog Adran 151 a'i dîm, a chyn Bennaeth y Gwasanaeth, am eu gwaith caled dros y pum mlynedd diwethaf, ac fe ychwanegodd ei bod wedi bod yn fraint gweithio gyda nhw.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn -*

*(a) yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2016/17 a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth y cytunwyd arnynt ar gyfer y gyllideb, a*

*(b) Nodi'r defnydd arfaethedig o danwariant gwasanaethau lle nodwyd hynny ac y ceisir cymeradwyaeth ffurfiol pan fo'r union ffigyrau'n hysbys fel rhan o'r Adroddiad Alldro Terfynol.*

## 7 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cafodd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet ei gyflwyno i'w ystyried a nodwyd y byddai'r cyfarfod Cabinet nesaf yn cael ei gynnal ar 6 Mehefin 2017.

***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.*

## Gwahardd y wasg a'r cyhoedd

***PENDERFYNWYD*** *o dan Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd i'w gwahardd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol ar y sail fod tebygrwydd y byddai gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12 ac 14 o Ran 4*

*Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.*

## 8 DILEU TRETHI BUSNES

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad cyfrinachol yn gofyn i'r Cabinet gymeradwyo dileu Trethi Busnes na ellid eu hadennill ar gyfer pedwar cwmni/unigolyn lle na fyddai camau adennill yn parhau oherwydd eu bod naill ai wedi eu dirwyn i ben neu eu diddymu.

Mewn ymateb i gwestiynau, cafodd y Cabinet wybod am y broses gadarn i adennill dyledion i sicrhau y cyfle gorau o gael canlyniad ffafriol, ond nid oedd llawer y gallai'r awdurdod ei wneud yn ychwanegol at y broses honno o ran atal dyledion drwg rheolaidd gan yr un masnachwyr/busnesau unigol. Bu rhywfaint o'r drafodaeth yn canolbwyntio ar yr ailbrisio diweddar o ardrethi busnes a'r effaith ar fusnesau llai a rhoddodd swyddogion sicrwydd bod yr wybodaeth a chymorth perthnasol ar gael i fusnesau o ran y newidiadau trosiannol, rhyddhad ardrethi a phrosesau apelio. Cadarnhaodd yr Arweinydd hefyd ei fod wedi ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn mynegi pryder yn uniongyrchol ynghylch yr effaith ar fusnesau lleol sy'n deillio o newidiadau i werth trethiannol busnesau a chynigion ar ryddhad ardrethi.

Nododd y Cabinet nad oedd unrhyw obaith o adennill unrhyw un o'r dyledion trethi busnes fel y nodwyd yn yr adroddiad. Nodwyd hefyd na fyddai unrhyw gost uniongyrchol i'r cyngor am y dyledion a ddiddymwyd a gafodd eu diwallu gan y Gronfa Genedlaethol.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cytuno i ddiddymu'r Trethi Busnes na ellir eu hadennill fel y nodir yn Nhabl 1 yr adroddiad.*

Cyn i'r cyfarfod ddod i ben, fe ddymunodd yr Arweinydd y gorau i'r aelodau hynny sy'n sefyll i gael eu hailethol. Ni fydd y Cynghorydd David Smith yn sefyll i gael ei ail-ethol a bu'r Arweinydd yn rhoi teyrnged am ei waith a'i gyfraniad gwerthfawr yn ystod ei gyfnod a dymunodd yn dda iddo yn ei ymddeoliad. Fe achubodd y Prif Weithredwr ar y cyfle hefyd i ddiolch i'r Cabinet ar ran swyddogion am eu cymorth a'u hymrwymiad cyfunol er mwyn cyflawni'r gorau i Sir Ddinbych.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.00 a.m.